Cymru Yfory
Tomorrow's Wales

Papur 4 - Y dewis ger bron

Ar hyn o bryd mae **Rhan 3 Deddf Llywodraeth Cymru** mewn grym. Pwrpas cynnal refferendwm yw penderfynu a ddylid dod â **Rhan 4** y ddeddf honno i rym.

Rhan 3: Y Trefniadau Presennol

Ar hyn o bryd mae modd i'r Cynulliad Cenedlaethol basio deddfau cynradd (o dan yr enw Mesurau'r Cynulliad) yn yr 20 Maes Polisi y mae'n gyfrifiol amdanyn nhw. Yn gyntaf fodd bynnag rhaid cyflwyno iddo'r gallu i wneud hynny gan Senedd San Steffan. Pan fydd y pwer i ddeddfu mewn materion arbennig wedi'i gyflwyno, mae'r Cynulliad yn meddu ar y pwer yna'n barhaol.

Mae dwy brif ffordd o gyflwyno'r pwerau:

(1) Drwy Ddeddfau Seneddol sy'n rhoi pwerau 'fframwaith' i'r Cynulliad o fewn sgôp y deddfau hynny. Fel rheol mae hyn yn golygu negodiadau y tu ôl i'r llenni rhwng Llywodraethau Cymru a San Steffan ynghylch pun a ddylid cyflwyno'r pwerau, a beth ddylen nhw gynnwys.

(2) Drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD neu LCOs). Dyma yn fras y camau yn y broses:

- Trafodaeth fewnol ar dermau Gorchymyn drafft gyda Swyddfa Cymru a Whitehall
- Cyhoeddi GCD drafft
- Craffu rhag-ddeddfwriaethol gan bwyllgor yn y Cynulliad
- Craffu rhag-ddeddfwriaethol yn San Steffan, fel rheol gan Bwyllgor Materion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Pwyllgor Cyfansoddiadol yn yr Arglwyddi. Y ddau bwyllgor yn paratoi adroddiad ac yn cael cynnig gwelliannau i'r GCD drafft, a'r Ysgrifennydd Gwladol yr un modd, os myn e/hi
- Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwahanol ymatebion, ac yn paratoi GCD ffurfiol
- Y Cynulliad yn ystyried y GCD arfaethedig
- O'i gymeradwyo gan y Cynulliad, ei ystyried wedyn yn San Steffan. Gellir ei ystyried eto gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, a bydd craffu arno gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol
- Dau Dŷ'r Senedd yn cymeradwyo'r GCD, neu beidio. O'i gymeradwyo, mae'n cael sêl bendith y Frenhines.

Dim ond wedi cwblhau'r broses yma, a all gymryd dwy flynedd hyd yn oed mewn achosion dirwystr, weithiau ragor, y gall y Cynulliad fynd ati i drafod a phasio deddf.

Dyma rai o anfanteision y system:

- Llyncu adnoddau ac amser
- Arafu'r broses o weithredu polisi
- Anodd i'r cyhoedd a mudiadau ei ddeall a chymryd rhan yn y broses
- Cymysgu rhwng dadleuon am bolisi a phwerau
- Perygl i'r broses fethu oherwydd diffyg amser

Enghreifftiau

- Byddai **GCD Tai Fforddiadwy,** a gyhoeddwyd ym Mehefin 2007, wedi rhoi'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru basio Mesurau Cynulliad ynghylch gwaredu anheddau a thai annedd gan landlordiaid cymdeithasol. Mae cwmpas y Gorchymyn yn cynnwys atal dros dro yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael mewn ardaloedd lle mae pwysau am dai. Ar ôl i Gyd-bwyllgor Offerynnau Stadudol San Steffan fynegi ei amheuaeth fod y Gorchymyn yn gyfreithiol gywir, tynnwyd y GCD yn ôl a gosodwyd Gorchymyn arall yn ei le ym mis Mehefin 2009. Mae'r Gorchymyn yma yn dal i fod yn y broses rhag-ddeddfwriaethol (Chwefror 2010).
- Bydd **GCD Diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff**, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2007, yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer Mesurau gyda'r nod o greu cymunedau cynaliadwy. Bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio mewn tri maes penodol: gwella ansawdd yr amgylchedd lleol; cynyddu ailgylchu a gwella rheoli gwastraff; a chryfhau rheolaeth dros lygredd. Bu'n rhaid i'r Gorchymyn gael ei ail-ddrafftio ac mae'n dal i aros am Gymeradwyaeth Brenhinol ar ôl cyfnod o dros ddwy flynedd a hanner (Chwefror 2010).

Rhan 4: Pwerau Deddfu Cynradd

Byddai dod â Rhan 4 i rym yn rhoi pwer cyffredinol i'r Cynulliad ddeddfu yn yr 20 Maes Polisi megis iechyd neu addysg, heb orfod llywio'i ffordd drwy'r broses uchod.

Rhai manteision fyddai:

- Arbed adnoddau ac amser
- Gweithredu polisi'n brydlon yn ôl yr angen
- Haws i'r cyhoedd a mudiadau ddeall a chymryd rhan
- Creu deddfwriaeth yn fwy strategol
- Canolbwyntio ar bolisi yn hytrach na phwerau

Dyma'r math o drefn sy'n arferol mewn systemau ffederal neu ddatganoledig drwy'r byd, yn cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon.